Ystadegau a Chanlyniadau: Adroddiad ar Geisiadau a Dyfarniadau ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau

(Mehefin 2017- Ebrill 2018)

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn raddol ledled y Deyrnas Unedig ers ei lansio ym mis Mehefin 2013, gan roi sylw penodol i'r cyfnod rhwng mis Mehefin 2017 a mis Ebrill 2018. Ceir yma amlinelliad o berfformiad gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais am Achrediad, sef eu perfformiad yn erbyn y safon ar lefel y modiwlau ac ar lefel y gofynion, gan fod yn ddangosydd rhagarweiniol i'r meysydd mwyaf cadarn ar draws archifau'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r meysydd hynny sydd ag anghenion datblygu parhaus.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ganlynol:

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a'r ceisiadau ar gyfer Cam Adolygu Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
2) Nifer y gwasanaethau archifau a dderbyniodd Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
3) Y ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archifau
4) Ymweliadau dilysu a wnaed gan gyrff asesu
5) Y cyflawni a wnaed ar lefel y modiwlau
6) Y cyflawni a wnaed ar lefel y gofynion
7) Dadansoddiad o gamau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y ceisiadau a adolygwyd ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau gan Banel Achredu Gwasanaeth Archifau. Nid yw'n cynnwys ceisiadau a ohirwyd gan Banel, heblaw am yn Adrannau 1 i 3 yr adroddiad (sef Nifer y Ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau ar draws y Deyrnas Unedig), oherwydd nid oes gan y ceisiadau hynny ganlyniad neu lefel asesiad wedi'u cadarnhau.

Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegol bellach ynghylch yr Achrediad Gwasanaeth Archifau ar gyfer 2013 hyd at fis Ebrill 2017, at ddibenion cyfeirio, pan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhrif destun yr adroddiad.

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a'r ceisiadau yng ngham Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2014)	14	12	0	1	1
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2014 i fis Mai 2015)	14	10	0	2	2
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2015 i fis Mai 2016)	20	15	0	2	3
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2016 i fis Mai 2017)	28	24	0	1*	3
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	58	52*	0	2**	4***
Cyfanswm Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Ebrill/Mai 2018)	134	113	0	8	13

* Adolygwyd un cais gan dîm asesu ar y cyd o'r TNA a'r NRS gan fod y gwasanaeth archifau wedi'i leoli yn yr Alban ac yn Lloegr.
** Adolygwyd un cais gan dîm asesu ar y cyd o SCA a'r TNA
*** Adolygwyd un cais gan dîm asesu ar y cyd o TNA a PRONI

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae 133 o wasanaethau archifau wedi cyflwyno cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig – 113 yn Lloegr, 8 yn yr Alban a 13 yng Nghymru.

Mae cyfanswm nifer y ceisiadau ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer 2017-18 wedi cynyddu unwaith eto, gyda chryn gynnydd yn nifer y ceisiadau yn Lloegr. Yn yr achos hwn, mae hyn yn adlewyrchu cyflwyno graddol ar y cynllun yn Lloegr lle roedd gofyn i wasanaethau archifau oedd â statws Man Adneuo wneud cais am Achrediad y Gwasanaeth Archifau yn ystod y cyfnod ymsefydlu cychwynnol hyd at 2018.

Mae'r ffigyrau ar gyfer y cyfnod Mehefin 2017 i fis Ebrill 2018 yn cynnwys cais a gafodd ei ohirio gan Banel.

Mae'r ffigyrau ar gyfer y cyfnod Mehefin 2016 i fis Mai 2017 yn cynnwys cais yn Lloegr a gafodd ei ohirio gan banel yn gynharach yn 2016.

Yn yr un modd, mae'r ffigyrau ar gyfer mis Mehefin 2015 i fis Mai 2016 (Lloegr) yn cynnwys cais a gafodd ei ohirio yn flaenorol o'r cyfnod Mehefin 2014 i fis Mai 2015.

Ceisiadau yng ngham Adolygu Achrediad Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer Ceisiadau'r Cam Adolygu (Mehefin 2016 i fis Mai 2017)	7	7	0	0	0
Nifer Ceisiadau'r Cam Adolygu (Mehefin 2017 i Ebrill 2018)	15	9	0	2	4
Cyfanswm nifer y ceisiadau yn y Cam Adolygu	22	16	0	2	4

Mae'r Cam Adolygu yn gam 'cofrestru' (*check in*) i wasanaethau archifau dair blynedd ar ôl dyfarnu achrediad iddynt am y tro cyntaf. Mae'r gwasanaethau archifau yn rhoi gwybod i gorff asesu eu gwlad am unrhyw newidiadau ers dyfarnu'r Achrediad iddynt, er enghreifftiau newidiadau i adnoddau, strwythur, adeiladau, neu bolisïau a chynlluniau newydd / diwygiedig yn ymwneud â chasgliadau neu fynediad.

2) Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

Mae'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn defnyddio graddadwyedd (*scalability*) ffurfiol i nodi'r mathau o wasanaethau archifau sy'n gwneud cais am yr achrediad, ac yn rhoi amlinelliad o'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau archifau o wahanol fath a maint. Dyma ddadansoddiad o'r mathau o wasanaethau archifau yn ôl y graddadwyedd hyn.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau Mehefin 2017 i fis Mai 2018

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	4	3	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	24	21	0	0	3
Sector cyhoeddus arall math 1	1	1	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	20	20	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	1	0	1*	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	1	0	0	0	1

Sector preifat a'r trydydd sector math 3	6	6	0	0	0
Cyfanswm	58	52	0	2	4

(Mae'r ffigyrau'n cynnwys cais wedi'i ohirio)

(*Mae'r gwasanaeth archifau wedi'i leoli yn yr Alban ond mae prif swyddfa'r sefydliad wedi'i leoli yn Lloegr)

Mae ceisiadau o'r gwasanaethau archifau y nodwyd eu bod yn perthyn i'r grŵp *Awdurdod Lleol math 2* (sy'n cynnwys holl Fannau Adneuo awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed os yw eu daliadau a maint eu cynulleidfa yn gyffredinol yn fach) yn parhau i gynrychioli canran arwyddocaol o'r holl ymgeiswyr (54%).

Sector cyhoeddus arall math 2 yw'r ail grŵp mwyaf ei faint o ran nifer y ceisiadau ac mae'n cynnwys sawl amgueddfa genedlaethol ac archif prifysgol.

Mae'r *sector preifat a'r trydydd sector* yn parhau i fod y grŵp lleiaf o ymgeiswyr, er bod nifer y gwasanaethau sy'n ymgeisio wedi cynyddu yn Lloegr 2017/2018.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau 2013 i fis Ebrill 2018

2013 i fis Ebrill 2018	**Cyfanswm**	**Lloegr**	**Gogledd Iwerddon**	**Yr Alban**	**Cymru**
Awdurdod lleol math 1	6	4	0	2	0
Awdurdod lleol math 2	63	54	0	0	9
Sector cyhoeddus arall math 1	3	2	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	37	33	0	3	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	4	3	0	1	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	8	6	0	1	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	11	11	0	0	0
Cyfanswm	132	113	0	7	12

Mae rhychwant y ceisiadau yn ôl y mathau gwahanol o wasanaethau archifau ledled gwledydd Prydain yn adlewyrchu rhoi'r rhaglen arfaethedig ar waith yn raddol ledled pob un o'r gwledydd. Er enghraifft, yn Lloegr, mae gwasanaethau archifau awdurdodau lleol sy'n Fannau Adneuo yn grŵp blaenoriaeth yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol, ond caiff gwasanaethau archifau nad oedd yn gymwys i gymryd rhan mewn cynlluniau safonol blaenorol hefyd eu hannog i wneud cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae

Llywodraeth Cymru yn gwahodd gwasanaethau archifau awdurdodau lleol i wneud cais am achrediad yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Yn yr Alban, mae Cyngor yr Alban ar Archifau (SCA) a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yn ymdopi â gallu asesu cyfyngedig ym mlynyddoedd cynnar y cynllun. Daw nifer uwch o geisiadau o wasanaethau archifau graddfa 2 a 3 (mwy o faint). Gall hyn adlewyrchu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch graddadwyedd ac amharodrwydd i adnabod eu hunain yn wasanaeth bach, fel y nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad diweddaru yn ddiweddar.

3) Nifer yr ymweliadau dilysu a gynhaliwyd gan gyrff asesu'r gwahanol wledydd

Wrth asesu cais ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau, gall cyrff asesu hefyd ymweld â gwasanaeth archifau'r ymgeisydd. Mae'r ymweliad hwn yn gyfle i'r asesydd ddilysu elfennau o'r cais, adolygu unrhyw ddogfennaeth nad ydynt yn addas i'w cyflwyno fel rhan o'r cais, a hefyd edrych o amgylch y safle.

Dyma gyrff asesu gwledydd y Deyrnas Unedig:

- Yr Archifau Gwladol (TNA) i Loegr
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (PRONI) i Ogledd Iwerddon
- Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a Chyngor yr Alban ar Archifau (SCA) i'r Alban
- Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (MALD), Llywodraeth Cymru i Gymru

Ymweliadau dilysu ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	TNA	PRONI	NRS/SCA	MALD
Cynhaliwyd	100%	*amherthnasol*	100%	100%*
Nis cynhaliwyd	0	*amherthnasol*	0	0

Mewn un achos, gwnaed galwad ffôn yn hytrach nag ymweliad safle.

Yn yr Alban a Chymru, lle mae'r cyrff asesu wedi ymrwymo i ymweld â 100% o wasanaethau ymgeiswyr, cyflawnwyd hyn. Yn Lloegr y polisi yw ymweld ag o leiaf 25% o wasanaethau archifau ymgeiswyr ym mhob rownd, ac mae'r Archifau Gwladol (TNA) wedi cyflawni ymweliadau 100% gan y tîm asesu gan ei fod wedi bod yn flaenoriaeth i ymweld â phob cais yn ystod y cyfnod hwn.

Ymweliadau dilysu ceisiadau Cam Adolygu Achrediad Gwasanaeth Archifau

Mehefin 2017 i Ebrill/Mai 2018	TNA	PRONI	NRS/SCA	MALD
Cynhaliwyd	7%	*amherthnasol*	0	0
Nis cynhaliwyd	93%	*amherthnasol*	100%	100%

Yn Lloegr penderfynodd yr aseswyr ymweld ag un safle yn unig o'r pymtheg cais yn y Cam Adolygu, gan fod â ffocws ar ymweld ag ymgeiswyr newydd.

Nifer y gwasanaethau archifau sy'n cael statws achrededig

Panel Achredu Gwasanaeth Archifau sy'n dyfarnu Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae tri chanlyniad posibl:

- Achrediad: Mae'r gwasanaeth archifau wedi dangos ei fod yn cyflawni'r safon
- Achrediad Dros Dro: Mae'r gwasanaeth archifau yn agos at gyflawni gofynion y safon. Dyfernir Achrediad Dros Dro am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, er mwyn rhoi sylw i un neu ddau o feysydd datblygiad o bwys
- Dim Achrediad: Mae angen i'r gwasanaeth archifau ddatblygu mewn meysydd arwyddocaol cyn cyflawni'r safon

Gall y Panel gynghori gohirio cais os yw'r gwasanaeth archifau yn mynd trwy gyfnod o newid mawr, er enghraifft, newid o ran llywodraethu neu newid yn y gwasanaethau y mae'n eu cynnig.

Mehefin 2017 i fis Ebrill/ Mai 2018	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	39	33	0	2	4
Achrediad dros dro	13	13	0	0	0
Dim Achrediad	5	5	0	0	0

Dyfarnwyd achrediad llawn i 39 o wasanaethau archifau gan y Panel Achredu Gwasanaethau Archifau a chafodd 13 gwasanaeth archifau achrediad dros dro.

Cyfran y gwasanaethau archifau a gafodd y dyfarniad 'achrededig dros dro' o fis Mehefin 2017 hyd at fis Ebrill 2018 oedd 23%, sydd fymryn yn uwch nag o fis Mehefin 2016 hyd at fis Mai 2017 pan ddyfarnwyd achrediad dros dro i 22% o'r gwasanaethau archifau. Mae achrediad dros dro yn fwy tebygol o gael ei ddyfarnu os yw gwasanaeth archifo â lle storio hynod o wael o ran amodau amgylcheddol neu ddiffyg lle ehangu, ond bod ganddo gynlluniau cadarn ar y gweill i symud i le gwell.

Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y gwasanaethau archifau na lwyddodd i gael yr achrediad. O fis Mehefin 2017 hyd fis Ebrill 2018, roedd nifer y gwasanaethau archifau nad oeddent wedi cael achrediad yn 9% o gyfanswm y ceisiadau am y cyfnod hwn.

Roedd pob un o'r gwasanaethau archifau a aseswyd yn y Cam Adolygu ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau wedi cadw eu statws achrededig, er bod un gwasanaeth archifau bellach wedi'i asesu yn un dros dro oherwydd pryderon ynghylch deiliadaeth eu storfeydd.

I weld cyfanswm nifer y gwasanaethau archifau achrededig o 2013 hyd at fis Mai 2017 gweler atodiad A.

4) Cyflawni ar lefel modiwlau'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Caiff pob cais asesiad cyffredinol ym mhob un o dri modiwl y safon Achredu, yn ogystal ag asesiad manwl yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad. Byddai 'Heb ei Gyflawni' mewn unrhyw fodiwl yn golygu y byddai'n amhosibl dyfarnu Achrediad.

Mehefin 2017 i fis Ebrill 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	50	6	1
Casgliadau	43	14	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	55	2	0

Roedd 50 o'r gwasanaethau archifau achrededig wedi cyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Iechyd Sefydliadol ac roedd chwe gwasanaeth archifau yn rhannol wedi cyflawni'r safon yn y maes hwn. Pan aseswyd bod gwasanaethau archifau yn rhannol gyflawni'r modiwl hwn yn gyffredinol, roedd hyn fel arfer oherwydd nifer neu gyfuniadau o resymau penodol i'r gwasanaeth archifau ei hun er bod thema gyffredin yn adlewyrchu diffyg cynllunio gwirioneddol i fynd i'r afael ag anghenion storio'r casgliadau.

Methodd un gwasanaeth archifau â chyflawni'r safon yn y modiwl hwn yn gyffredinol.

Roedd 14 o wasanaethau archifau wedi cyflawni'r safon yn rhannol yn y modiwl Casgliadau a dyma'r maes gwannaf o ran perfformiad ar lefel modiwl. Yn yr achosion dan sylw, roedd hyn oherwydd aseswyd bod nifer sylweddol o ofynion wedi'u cyflawni'n rhannol yn y modiwl hwn. Mae'r themâu cyffredin yn cynnwys gwasanaethau archifau yn rheoli problemau parhaus a etifeddwyd yn ymwneud â rheoli casgliadau, gan gynnwys ôl-groniadau catalogio, diffyg storio addas, a'r angen i gryfhau'r cynllunio ym meysydd rheoli casgliadau.

Roedd 55 o'r gwasanaethau archifau achrededig yn bodloni'r safon gyffredinol ar gyfer Rhanddeiliaid a'u Profiadau ac roedd dau wasanaeth archifau yn rhannol wedi bodloni'r modiwl hwn yn gyffredinol. Dyma'r maes y mae gwasanaethau archifau yn dal i berfformio gryfaf ynddo.

2013 i fis Ebrill/Mai 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	121	8	1
Casgliadau	103	26	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	127	3	0

5) Cyflawni ar lefel gofynion yr Achrediad Gwasanaeth Archifau

Mae pob cais hefyd yn cael asesiad penodol yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad yn y safon. Mae hyn yn rhoi modd dadansoddi'n fanylach sut mae gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob elfen o'r safon.

Mae'n werth gwneud yn glir nad yw penderfyniadau sydd wedi'u gohirio yn cael eu cyfrif yn y dadansoddiad hwn.

a) Gofynion ar gyfer y Modiwl Iechyd Sefydliadol

Mae Iechyd Sefydliadol yn edrych ar y meysydd hynny sy'n sail i brosesau hirdymor derbyniadau, cadwraeth a pha mor hygyrch yw casgliadau archifau.

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	55	2	0
1.2 Llywodraethu	54	3	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	48	9	0
1.4 Adnoddau: Gofod	32	23	2
1.5 Adnoddau: Cyllid	50	7	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	51	5	1

Yn y modiwl hwn, y gofyniad **1.4 Adnoddau: Gofod** sy'n parhau i fod y gwannaf. Pan nad oedd gwasanaethau archifau yn cyflawni'r gofyniad hwn yn llawn, roedd hyn oherwydd diffyg lle storio i gadw casgliadau, boed analog neu ddigidol, ac mewn rhai achosion roedd diffyg gofod swyddfa gefn hefyd. Yn achos y ddau wasanaeth archifau a aseswyd nad oedd yn cyflawni'r gofyniad, teimlwyd bod hyn yn atal y gwasanaeth archifau rhag cyflawni ei rôl yn llwyddiannus wrth reoli a darparu mynediad at gasgliadau.

Aseswyd bod saith gwasanaeth archifau a ymgeisiodd wedi rhannol gyflawni'r gofyniad **1.5 Adnoddau: Cyllid**. Pan aseswyd bod gwasanaethau archifau wedi rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, roedd pryder y gallai diffyg cyllid craidd effeithio ar ddarparu gwasanaeth archifau cynaliadwy dros gyfnod o amser hirach.

Maes arall i'w nodi yw gofyniad **1.6 Adnoddau: Gweithlu** ac unwaith eto roedd un ymgeisydd wedi methu â chyflawni'r gofyniad hwn. Yn yr achos hwn, teimlwyd nad oedd digon o gyngor archifol proffesiynol ar gael i'r gwasanaeth archifau reoli ei gasgliadau yn effeithiol a hysbysu cynllunio. O ran y gwasanaethau archifau oedd wedi rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, teimlwyd nad oedd digon o staff i gynnal gweithgareddau craidd y gwasanaeth archifau.

Aseswyd bod 16% o'r gwasanaethau archifau a ymgeisiodd yn rhannol gyflawni gofyniad **1.3 Cynllunio Ymlaen**. Themâu cyffredin yma oedd yr angen i integreiddio cynllunio yn fframwaith cynllunio'r sefydliad neu angen a nodwyd i ddatblygu a chryfhau blaengynllunio ar gyfer y gwasanaeth archifau yn gyffredinol.

2013 i fis Ebrill 2018

	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	127	3	0
1.2 Llywodraethu	125	5	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	114	16	0
1.4 Adnoddau: Gofod	80	48	2
1.5 Adnoddau: Cyllid	121	9	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	119	10	1

Gofynion ar gyfer y Modiwl Casgliadau

Mae'r modiwl Casgliadau yn archwilio gallu gwasanaeth archifau i ddatblygu casgliadau, ac i ofalu a chadw gwybodaeth amdanynt.

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
2.1 Rheoli Casgliadau	51	6	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	48	9	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	41	16	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	55	2	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	27	30	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	53	4	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	53	4	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	35	22	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	30	26	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	31	26	0

Yn y modiwl hwn, roedd y gwasanaethau archifau yn parhau i berfformio gryfaf yng ngofynion **2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau**, **2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau** a **2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau** ac mae hyn yn adlewyrchu mabwysiadu polisïau rheoli casgliadau yn eang ledled y sector.

Gwelwyd mai'r meysydd gwannaf yn y modiwl hwn oedd y rhai yn ymwneud â gofynion **2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau** a **2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb**. Aseswyd bod 46% o'r gwasanaethau archifau a ymgeisiodd wedi cyflawni

gofyniad 2.4.3 yn rhannol. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys diffyg gweithdrefnau ysgrifenedig, sylwi ar risgiau heb eu rheoli yn ystod yr ymweliad dilysu, ac yn amlach na pheidio amodau storio gwael ond y risgiau i gasgliadau yn cael eu rheoli'n dda. Roedd un gwasanaeth archifau a ymgeisiodd wedi methu â chyflawni'r safon ar gyfer y gofyniad hwn oherwydd cyfuniad o storio o ansawdd gwael ynghyd â diffyg rheoli ar risgiau a nodwyd i'r casgliadau.

Aseswyd canran gymharol uchel o wasanaethau archifau (45%) o fod yn rhannol gyflawni **gofyniad 2.4.4**. Yn y mwyafrif o achosion roedd cynllun mewn trychineb ar waith, ond nid oedd y gwasanaeth archifau wedi ei brofi eto.

O ran cynllunio yn ymwneud â rheoli casgliadau, gofyniad **2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau** yw'r maes cryfaf gyda 72% o wasanaethau archifau yn cyflawni'r gofyniad hwn, a'r gofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau** oedd y gwannaf wrth i dros hanner y gwasanaethau a ymgeisiodd gael eu hasesu i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn. Yn aml mae hyn yn adlewyrchu cryn dipyn o ôl-groniadau catalogio, gan gynnwys yr angen i wella gwybodaeth yn y catalogio sy'n bodoli eisoes.

2013 i fis Ebrill 2018

2013 i fis Ebrill 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	120	6	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	120	10	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	89	31	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	80	4	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	37	47	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	79	5	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	74	10	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	56	28	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	40	43	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	51	33	0

c) Gofynion ar gyfer y Modiwl Rhanddeiliaid a'u Profiadau

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar allu gwasanaeth archifau i ddarparu a datblygu mynediad at ei gasgliadau, mewn ymateb i anghenion ei gymuned.

Mehefin 2017 i fis Ebrill 2018

Mehefin 2017 i fis Ebrill 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	55	2	0

3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	47	10	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	46	11	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	49	8	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	49	8	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	52	5	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	55	2	0

Dangosodd gwasanaethau archifau gryfder penodol yn y gofynion **3.1 Polisi Mynediad** a **3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad** yn y modiwl Rhanddeiliaid a'u Profiadau. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant gwasanaethau archifau wrth ddarparu ystod eang o ddulliau mynediad i'r casgliadau gan gyfeirio at rôl ac amcanion y gwasanaeth archifau a ymgeisiodd.

Gwelwyd mai gofyniad **3.2 Cynlluniau a Chynllunio Mynediad** yw'r maes sydd angen y mwyaf o ddatblygu yn y modiwl hwn ac adlewyrchir hyn yn y perfformiad ar lefel yr is-ofynion. Mae'r gofynion **3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd** a **3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd** yn dangos bod angen i wasanaethau archifau fynd ati'n fwy systematig i gasglu gwybodaeth a chynnal dadansoddiadau manylach ar yr wybodaeth hon. Yn yr un modd, roedd **3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd** yn nodi bod angen i wasanaethau archifau gryfhau eu cynllunio neu ddatblygu cynllun mwy strwythuredig i gyflawni'r gofyniad hwn yn llawn.

Roedd 86 y cant o'r gwasanaethau archifau a ymgeisiodd wedi cyflawni gofyniad **3.3.1 Gwybodaeth am fynediad**. Pan fo gwasanaethau archifau wedi methu â bodloni'r gofyniad hwn yn llawn, teimlwyd bod oriau agor cyfyngedig, neu fynediad cyfyngedig i gatalogau a chymhorthion canfod, wedi arwain at fynediad cyfyngedig i gasgliadau.

2013 i fis Ebrill 2018	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	121	9	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	112	18	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	113	17	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	118	12	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	116	14	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	124	6	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	127	3	0

7) Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella

Mae pob gwasanaeth archifau yn cael adborth ar eu cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau, a'r adborth hwnnw yn dangos sut mae eu gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob un o ofynion y safon. Mae rhan o'r adborth hwn ar ffurf camau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella, sy'n darparu arweiniad ar sut y gall y gwasanaeth gyflawni'r safon yn fwy llwyddiannus. Mae'n rhaid cyflawni Camau Gweithredu Gofynnol er mwyn parhau i gyflawni'r safon a chadw'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn y dyfodol. Mae'r Camau Gweithredu i Wella yn cefnogi gwaith datblygu'r gwasanaeth archifau.

Yn ôl modiwl

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	Camau Gweithredu i Wella	Camau Gweithredu Gofynnol
Iechyd Sefydliadol	95	95
Casgliadau	190	147
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	92	23

Yn ôl gofynion

Mehefin 2017 i fis Ebrill/Mai 2018	Camau Gweithredu i Wella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	4	0
1.2	15	8
1.3	12	11
1.4	32	52
1.5	11	8
1.6	21	16
2*	0	0
2.1	13	3
2.2	10	8
2.2.1	22	4
2.2.2	26	10
2.3*	7	5
2.3.1	8	3
2.3.2	25	16
2.3.3	2	1
2.4*	23	22
2.4.1	10	11
2.4.2	21	14
2.4.3	13	20
2.4.4	10	30
3	0	0
3.1	12	5

3.2*	19	3
3.2.1	13	0
3.2.2	11	2
3.2.3	14	1
3.3*	2	4
3.3.1	14	5
3.3.2	6	3
3.3.3	11	0

*Sylwer bod rhai camau gweithredu yn adlewyrchu angen cyffredinol i wella mewn maes megis gofalu am gasgliadau neu gynllunio cynulleidfa, a gellid eu gosod ar lefel gofyniad yn hytrach nag is-ofyniad.

Dylid nodi bod llawer o'r camau gweithredu yn cyfeirio at fwy nag un gofyniad, er enghraifft, gallai cam gweithredu gyfeirio at 1.6 a 2.4 pan fo angen sicrhau bod mynediad digonol i arbenigedd proffesiynol wrth ofalu am gasgliadau.

a) Camau Gweithredu Gofynnol:

Themâu cyffredin

- *Datblygu gofod storio newydd, a gwella'r amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio*
- *Datblygu'r gallu i amlyncu a storio cofnodion digidol-anedig*

Iechyd Sefydliadol: Yn y maes hwn, roedd y camau gweithredu gofynnol yn cynnwys nifer o themâu gwahanol:

- Yr angen am lety newydd, gan gynnwys lle storio ar gyfer cofnodion analog neu ddigidol (neu'r ddau), gan gynnwys datblygu cynlluniau cyfredol i ddatblygu hyn
- Datblygu creu incwm
- Sicrhau mynediad digonol i arbenigedd proffesiynol, cyngor archifol a chyngor cadwraeth arbenigol sy'n gysylltiedig â chenhadaeth a graddfa'r gwasanaeth archifau
- Yr angen i gryfhau cynllunio strategol
- Yr angen i wneud gwaith ar gynllunio'r gweithlu i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y gweithlu yn cefnogi newid i anghenion cyflenwi'r gwasanaeth archifau

Casgliadau: Yn y modiwl hwn y nododd yr aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu gofynnol. Roedd y camau gweithredu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Datblygu gwybodaeth a gallu i gasglu a rheoli cofnodion digidol-anedig
- Cadwraeth a rheoli risgiau mewn storfeydd, yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, systemau rheoli adeiladau a diogelwch parhaus, mynediad i gyngor proffesiynol ar gadwraeth, profi'r cynllun trychineb
- Gwella catalogio cyflwr casgliadau

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nododd aseswyr y nifer lleiaf o gamau gweithredu gofynnol yn y modiwl hwn. Roedd camau yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Datblygu ac ehangu partneriaethau i adeiladu'r arlwy allgymorth
- Gwella arwyddion er mwyn adnabod y gwasanaeth archifau
- Cyflwyno system gofrestru darllenwyr
- Adfer oriau agor llawn ar ôl gostyngiad dros dro yn yr oriau agor
- Gwella gwybodaeth ar y wefan am gasgliadau a'r mynediad at y wybodaeth hon, gan gynnwys unrhyw gatalog ar-lein
- Gwneud unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rheoli mynediad at gasgliadau yn glir yn y polisi mynediad

Camau Gweithredu i Wella:

Themâu cyffredin

- *Cryfhau blaengynllunio, gan gynnwys yn ymwneud â datblygu casgliadau, gwybodaeth am gasgliadau a gofal casgliadau*
- *Adeiladu ar ddatblygiadau cadwraeth ddigidol*
- *Gwella trosglwyddo cofnodion o riant-gorff*
- *Gwella amodau storio ar gyfer casgliadau*
- *Datblygu gwybodaeth ar-lein a mynediad o bell, gan gynnwys y catalog*
- *Datblygu'r arlwy mynediad gan gynnwys allgymorth a dysgu, yn arbennig trwy ymchwil i gynulleidfaoedd a datblygu gweithgareddau mewn partneriaeth*

Mae camau gweithredu i wella yn tueddu i fod yn eithaf amrywiol ac yn aml yn fwy penodol i wasanaethau archifau unigol a'u hamgylchiadau.

Iechyd Sefydliadol: Nodwyd y nifer lleiaf o gamau gweithredu gwella gan yr aseswyr yn y modiwl hwn, a'r rheiny'n cwmpasu holl ofynion y modiwl hwn yn y themâu canlynol: arallgyfeirio cyllid, cryfhau blaengynllunio a gwneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â chynllunio strategol a'r cyd-destun sefydliadol ehangach, datblygu'r arlwy i wirfoddolwyr, datblygu cynllunio olyniaeth. Roedd nifer arwyddocaol yn gysylltiedig â gofyniad 1.4 gyda chamau gweithredu yn ymwneud â storio a chadwraeth ddigidol yn codi'n aml yma.

Casgliadau: Rhestrodd aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu i wella gwasanaethau archifau mewn perthynas â gofynion yn y modiwl hwn (sydd â'r nifer uchaf o ofynion). Roedd camau gweithredu yn ymwneud â datblygu parhaus ar arferion cadwraeth ddigidol, lleihau ôl-groniadau catalogio, parhau i reoli'r amgylchedd cadwraeth, gwella trosglwyddo cofnodion o'r rhiant-gorff, datblygu cynllunio o gwmpas meysydd perthnasol rheoli casgliadau, adolygu arferion presennol a chynllunio ac ehangu polisïau i adlewyrchu arfer cyfredol y gwasanaeth archifau.

Yn aml iawn, mae'r camau gweithredu yn y modiwl yn atgyfnerthu y dylai'r gwasanaethau archifau ddatblygu cynlluniau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft o ran rheoli cofnodion digidol-anedig a phrofi cynlluniau trychineb.

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Yn y modiwl hwn y nododd yr aseswyr y nifer lleiaf o gamau gwella. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys y themâu canlynol: datblygu neu adeiladu ar bartneriaethau presennol i ymestyn cyrhaeddiad y gwasanaeth archifau, datblygu casglu a dadansoddi data ar gynulleidfaoedd, gwella gwybodaeth ar y wefan a datblygu arlwy ar-lein i gael mynediad at gasgliadau; hyrwyddo'r gwasanaeth archifau a'r ystod o weithgareddau y mae'n eu darparu a datblygu gweithgareddau dysgu ac allgymorth i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Cam Adolygu

Fel rhan o gais y Cam Adolygu, mae gwasanaethau archifau achrededig yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'w gwasanaethau archifau, er enghraifft o ran adnoddau, ailstrwythuro, cynllunio ymlaen, diwygio polisïau. Mae hyn yn golygu y gall yr asesiad gwreiddiol yn erbyn pob gofyniad newid o bosibl.

Mae'r tabl isod yn dangos ymhle y gwnaed newidiadau i'r asesiad gwreiddiol yn dilyn y cais cyntaf am Achrediad Gwasanaeth Archifau.

Lefel modiwl 2017-2018

	Iechyd Sefydliadol	Casgliadau	Rhanddeiliaid a'u Profiadau
Wedi'i Gyflawni i Gyflawni'n Rhannol	1	0	0
Cyflawni'n Rhannol i Wedi'i Gyflawni	0	0	0
Cyflawni'n Rhannol i Heb ei Gyflawni	0	0	0

Lefel gofynion 2017-2018

Gofyniad	Wedi'i Gyflawni i Gyflawni'n Rhannol	Cyflawni'n Rhannol i Wedi'i Gyflawni
1.1	0	0
1.2	0	0
1.3	0	1
1.4	0	0
1.5	1	0
1.6	1	0
2.1	0	1
2.2.1	1	0
2.2.2	0	1
2.3.1	0	2
2.3.2	1	1
2.3.3	0	0
2.4.1	0	0
2.4.2	0	0
2.4.3	0	0
2.4.4	0	0
3.1	0	1
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	1	0
3.3.1	1	0
3.3.2	0	0
3.3.3	0	0

Cafwyd chwe newid ar lefel y gofynion o ran newid o gyflawni'n llawn i gyflawni'n rhannol yn ymwneud â gofynion 1.5, 1.6, 2.2.1, 2.3.2, 3.2.3 a 3.3.1.

Cafwyd saith newid ar lefel y gofynion o ran newid o fod wedi cyflawni'n rhannol i gyflawni'n llawn yn ymwneud â gofynion 1.3, 2.1, 2.3.1, 2.3.2 a 3.1 gan adlewyrchu cynnydd yn y meysydd hyn ers y dyfarniad gwreiddiol i gael yr Achrediad Gwasanaeth Archifau.

Atodiad

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ychwanegol am yr Achrediad Gwasanaeth Archifau at ddibenion cyfeirio, sef gwybodaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a dderbyniwyd o 2013 hyd at fis Mai 2017. Gallai fod yn ddefnyddiol cymharu'r wybodaeth ystadegol sydd yma â'r wybodaeth ystadegol sydd yn y prif adroddiad.

1 Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

2013 i fis Mai 2015	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	11	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	1	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	4	0	2	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	3	0	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	9	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	2	0	1	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	1	0	0	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	1	1	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	15	13	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	8	7	0	0	1

Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	1	0	1	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	1	1	0	0	0

2) Ymweliadau dilysu a wnaed mewn ymateb i geisiadau

2013 i fis Mai 2016	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
2013 – Mai 2014	93%	*amherthnasol*	100%	100%
Mehefin 2014 i fis Mai 2015	100%	*amherthnasol*	100%	100%
Mehefin 2015 i fis Mai 2016	100%	*amherthnasol*	100%	100%
Mehefin 2016 i fis Mai 2017	100%	*Amherthnasol*	100%	100%

3) Nifer y gwasanaethau archifau yn cael statws achrededig

2013 i fis Mai 2014	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	10	0	1	1
Achrediad Dros Dro	2	2	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	8	0	2	2
Achrediad Dros Dro	0	0	0	0	0
Dim Achrediad	1	1	0	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	18	13	0	2	3
Achrediad Dros Dro	1	1	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	21	17	0	1	3
Achrediad Dros Dro	6	6	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

2013 i fis Ebrill 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	63	48	0	6	9
Achrediad Dros Dro	9	9	0	0	0
Dim Achrediad	1	0	0	0	0

4) Cyflawni ar lefel modiwl

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	14	0	0
Casgliadau	11	3	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	14	0	0

Mai 2014 i fis Mehefin 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	13	0	0
Casgliadau	11	1	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	13	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	18	1	0
Casgliadau	18	1	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	18	1	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni

Iechyd Sefydliadol	26	1	0
Casgliadau	20	7	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	27	0	0

5) Cyflawni ar lefel gofynion

Iechyd Sefydliadol

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	14	0	0
1.2 Llywodraethu	14	0	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	2	0
1.4 Adnoddau: Gofod	12	2	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	14	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	13	0	0
1.2 Llywodraethu	12	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	1	0
1.4 Adnoddau: Gofod	9	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	13	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	13	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	19	0	0
1.2 Llywodraethu	18	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	18	1	0
1.4 Adnoddau: Gofod	15	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	19	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	17	2	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	26	1	0
1.2 Llywodraethu	27	0	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	24	3	0
1.4 Adnoddau: Gofod	12	15	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	25	2	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	24	3	0

Casgliadau

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	1	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	10	4	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	7	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	12	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	8	6	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	8	5	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	7	6	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	11	2	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	13	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	0	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	10	3	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	3	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	12	1	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
2.1 Rheoli Casgliadau	16	3	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	19	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	6	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	18	1	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	12	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	19	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	16	3	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	19	0	0

2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	10	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	18	1	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
2.1 Rheoli Casgliadau	27	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	27	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	14	13	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	25	2	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	10	17	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	26	1	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	21	6	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	21	6	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	10	17	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	20	7	0

Rhanddeiliaid a'u Profiadau

2013 i fis Mai 2014	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	11	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	14	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	13	0	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	13	0	0

3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	13	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	16	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	16	3	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	15	4	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	18	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	17	2	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	19	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	18	1	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	26	1	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	23	4	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	26	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	25	2	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	23	4	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	27	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	27	0	0

6) <u>Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella ar Lefel Gofynion</u>

2013 i fis Mai 2014	**Camau Gweithredu Gofynnol a bennwyd**	**Camau Gweithredu Gwella a bennwyd**
1.1	1	1
1.2	1	3
1.3	0	4
1.4	0	11
1.5	0	4
1.6	1	6
2.1	0	4
2.2.1	1	0
2.2.2	0	2
2.3.1	1	2
2.3.2	0	1

2.3.3	0	0
2.4.1	1	3
3.1	0	8
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	3
3.3.1	0	1
3.3.2	2	3
3.3.3	0	3

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Camau Gweithredu Gofynnol a bennwyd	Camau Gweithredu Gwella a bennwyd
1.1	0	0
1.2	0	4
1.3	2	0
1.4	8	15
1.5	0	1
1.6	0	4
2.1	0	3
2.2.1	0	4
2.2.2	1	8
2.3.1	0	5
2.3.2	1	2
2.3.3	0	1
2.4	3	7
2.4.1	0	3
2.4.2	3	0
2.4.3	2	2
2.4.4	4	0
3.1	0	4
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	2
3.3.1	0	3
3.3.2	0	2
3.3.3	0	2

Mehefin 2015 i Mai 2016	Camau Gweithredu Gwella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	3	1
1.2	3	3
1.3	4	3
1.4	17	9
1.5	6	0
1.6	6	3

2*	1	0
2.1	8	0
2.2		
2.2.1	7	0
2.2.2	5	1
2.3*	3	1
2.3.1	0	0
2.3.2	7	2
2.3.3	0	0
2.4*	7	0
2.4.1	1	2
2.4.2	3	1
2.4.3	6	11
2.4.4	2	3
3		
3.1	9	1
3.2*	5	0
3.2.1	8	1
3.2.2	3	1
3.2.3	5	1
3.3*	2	1
3.3.1	1	0
3.3.2	0	2
3.3.3	3	0

Mehefin 2016 i Mai 2017	Camau Gweithredu Gwella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	4	0
1.2	7	1
1.3	10	5
1.4	15	28
1.5	3	2
1.6	7	5
2*	1	0
2.1	4	0
2.2	20	3
2.2.1	6	4
2.2.2	8	4
2.3*	8	2
2.3.1	5	1
2.3.2	12	2
2.3.3	7	0
2.4*	12	18
2.4.1	1	4
2.4.2	6	8

2.4.3	8	11
2.4.4	5	8
3	1	0
3.1	10	1
3.2*	18	4
3.2.1	5	1
3.2.2	5	3
3.2.3	3	2
3.3*	6	0
3.3.1	3	4
3.3.2	1	1
3.3.3	2	0

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2014)	14	12	0	1	1
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2014 i fis Mai 2015)	14	10	0	2	2
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2015 i fis Mai 2016)	20	15	0	2	3
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2016 i fis Mai 2017)	28	24	0	1*	3
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2017 i Ebrill/Mai 2018	58	52*	0	2**	4***
Cyfanswm Nifer y Ceisiadau (2013 i Ebrill/Mai 2018)	134	113	0	8	13